

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 2il o Orffennaf 2013
Drefach Village Hall, 7.30pm 2nd of July 2013

Yn bresennol/Present: Cyng. Bill Green, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng. Alun James, Cyng Lewis Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Daniel Evans, Cyng Huw Davies, Cyng Daff Davies, Cyng Mary Thomas

Ymddiheiriadau/Apologise: Cyng Geraint Davies

Llongyfarchodd y Cadeirydd aelodau CFFI Llanwenog ar ennill y Rali ar y 15fed o Fai.
The Chairman congratulated the members of Llanwenog YFC for winning the Rally on the 15th May.

Derbyniodd y Cynghorwyr ddarlith ar y Côd Ymddygiad gan Gyngor Sir Ceredigion cyn y cyfarfod a oedd yn fuddiol iawn wrth asesu sut y dylsent ymddwyn mewn materion lle mae ganddynt fuddiant personol, neu lle mae arian yn cael ei roi.

The Councillors were given a presentation on the Code of Conduct by Ceredigion County Council before the meeting which was very useful whilst assessing how they should respond to matter where they have a declarable interest, or when money is being given.

1	<u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interest</u> Nid oedd unrhyw fuddiant personol. There was no declarable personal interest.
2	<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Confirm Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Alun James. The minutes of the June meeting were proposed as accurate by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Alun James.
3. a.	<u>Materion yn Codi / Matters Arising</u> Cofgolofn Drefach – Mae angen i'r Clerc nawr gysylltu gyda Arnold Davies Vincent Evans er mwyn trosglwyddo 'deeds' y gofgolofn i'r Cyngor Cymuned. Y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw'r gofgolofn beth bynnag. Mae enw un cwmni wedi dod i law ar gyfer glanhau'r milwr, mae angen i'r Clerc ffindio un cwmni arall. Dywedodd y Cyng Alun James bod angen gwneud y gwaith cyn canmlwyddiant y rhyfel y flwyddyn nesaf ac efallai dechrau meddwl am ddigwyddiad i nodi'r garreg filltir. Drefach War Memorial – The Clerk now needs to contact Arnold Davies Vincent Evans in order to transfer the 'deeds' of the memorial to the Community Council. It's the Community Council who are in charge of the maintenance works to the memorial anyhow. One company name has been found to clean the soldier, the Clerk needs to find another company for a quote in order to submit a grant application. Cllr Alum James stressed the importance of doing the work before the Centenary of the war next year and to start thinking of an event that can be done to mark the milestone.
b.	Tro Cware Alltgoch – Mae fence dros dro wedi ei osod yma, ond mae peirannwyr y Cyngor

	<p>Sir yn mynd i asesu'r sefyllfa'n fanylach. Dywedodd y Cyng Alun James bod dŵr yn cronni ar yr heol yma hefyd, ond mae achos naturiol dail yn casglu yn ystod yr Hydref yw hyn.</p> <p>Alltgoch Quarry Bend – A temporary fence has been placed here, but engineers from the Council are going to assess the matter in greater detail. Cllr Alun James stated that water was gathering on the road here aswell, but it was noted that this is to do with natural causes of leaves gathering during the Autumn.</p>
4	<p><u>Gohebiaeth / Correspondance</u></p> <p>a. Goleuadau Stryd – Os oes unrhywun am adael y goleuadau stryd ymlaen drwy'r nos yna mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor Sir ac mi fyddant yn gorfod talu am hyn, y gost yw £11.03 y flwyddyn. Street lighting – If anybody wants to keep their street lights on throughout the night then the Community Council needs to let the County Council know and the applicant will need to pay for this, the cost is £11.03 per annum.</p> <p>b. Hysbysebwyd pawb am CCB Cantref ar y 18fed o Orffennaf yn Aberystwyth nid oedd neb ar gael i fynychu. Everyone were notified of Cantref's AGM on the 18th of July in Aberystwyth, nobody was available to attend.</p> <p>c. Hysbysebwyd pawb o ymgynghoriad Dŵr Cymru ar y 18fed o Orffennaf yn Aberystwyth ynglyn a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Everyone was notified of Welsh Water's consultation on the 18th of July in Aberystwyth regarding their plans for the future.</p> <p>d. Dosbarthwyd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman. The Ombudsman's Annual Report was distributed.</p> <p>e. Dosbarthwyd llyfryn Un Llais Cymru. The latest edition of Un Llais Cymru magazine was circulated.</p>
5.	<p><u>Cynllunio / Planning</u></p> <p>a. Erection of one dwelling at Cloch yr Yd, Drefach – Dim Gwrthwynebiad / No objection</p> <p>b. Erection of a wind turbine at Caeronnen, Cwmsychpant – GWRTHOD / REFUSED</p>
6.	<p><u>Taliadau / Payments</u></p> <p>a. Cyngor Sir Ceredigion – Golau Stryd Bro Teifi - £13.27 Ceredigion County Council – Bro Teifi Street Light - £13.27</p>
7.	<p><u>Unrhyw Fater Arall / Any Other Business</u></p> <p>a. <u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u> Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd o Fedi 2013 am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on Tuesday, 3rd September 2013 at 7.30pm in Drefach Village Hall.</p>

b.	<p>Mae Alan Penlanfach wedi bod oamgylch yn peintio ciosgs y Plwyf, mae angen dolen ar giosg Cwmsychpant a gwaelod newydd i giosg Glanrhyd, roedd pawb yn hapus iddo wneud y gwaith hyn.</p> <p>Alan Penlanfach has been around the kiosks in the Parish painting them all, he noted that a new handle was needed to the Kiosk in Cwmsychpant and a new bottom to the kiosk at Glanrhyd, everyone was happy for him to do this work.</p>
----	--

Arwyddwyd:.....

Dyddiad:.....